# Datganiad Sefyllfa

# Cartrefi nid ysbytai

Dylai pobl ag anableddau dysgu gael y cymorth cywir ar gyfer eu hanghenion. Mae angen cymorth arnyn nhw mewn lle sy'n iawn iddyn nhw.

Rhoddir rhai pobl ag anableddau dysgu mewn unedau iechyd meddwl diogel neu ysbytai, oherwydd ni ellir darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu cymunedau

Mae hyn wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd lawer, ac yn dal i ddigwydd heddiw.

Nid yw anabledd dysgu yn salwch nac yn fater iechyd meddwl.

Nid yw rhoi'r cymorth anghywir i berson ag anabledd dysgu yn dda ar gyfer iechyd meddwl. Gall rhoi'r cymorth anghywir arwain at argyfwng iechyd meddwl.

Bwriad Strategaeth Cymru Gyfan 1983 oedd cau'r ysbytai arhosiad hir, a oedd yn sefydliadu pobl ag anableddau dysgu.

Cyflawnodd y Strategaeth hynny, ond mae'n ymddangos ein bod yn mynd yn ôl mewn amser - mae rhai pobl ag anableddau dysgu eto'n cael eu cartrefu mewn ysbytai, yn hytrach na chael eu cefnogi mewn man y gallant ei alw'n gartref.

Mae gormod o bobl ag anableddau dysgu yn cael eu cadw mewn ysbytai. Mae llawer wedi bod yno ers sawl blwyddyn heb unrhyw gynlluniau i'w hintegreiddio yn ôl i'w cymunedau.

Yn aml, mae'r rhain yn bobl sydd wedi'u derbyn i'r ysbyty am resymau iechyd ac maent wedi aros yno hyd yn oed pan fydd eu hiechyd wedi gwella. Yr achos gwaethaf yr ydym yn ymwybodol ohono, yw rhywun sydd wedi bod mewn ysbyty am chwe deg chwech o flynyddoedd.

*“Nid yw anabledd dysgu yn gyflwr iechyd meddwl”*
*“Nid ydym yn garcharorion, rydym yn fodau dynol” “rhowch y gorau i drin pobl ag anableddau dysgu fel carcharorion”*
*“Rhowch y gorau i ddwyn bywydau” “caeodd sefydliadau 40 mlynedd yn ôl – pam mae pobl yn dal i fod dan glo?” “addysg nid meddyginiaeth”* – aelodau Cyngor Cenedlaethol Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Mae Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan wedi treulio llawer o amser yn ceisio sicrhau newid yn y maes hwn. Yr ydym wedi ysgrifennu llythyrau at Weinidogion; yr ydym wedi siarad â Gweinidogion; rydym wedi codi’r materion yng Nghyfarfodydd Grŵp Cynghori’r Gweinidog; Rydym wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd unigol.

Dywed awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd nad yw'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau priodol yno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw'n gallu ymwneud ag achosion unigol.

Ym mis Mawrth 2024 fe wnaethom ymuno â'r Ymgyrch ***Cartrefi Nid Ysbytai***, gan roi ein cefnogaeth i'r ***Maniffesto Bywydau Wedi'i Ddwyn***.

**Galwadau i Weithredu**

1. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cymorth i bobl ag anableddau dysgu fyw mewn cartrefi ac nid ysbytai drwy:
    - Sicrhau bod adnoddau ariannol digonol i weddu i anghenion pobl ag anableddau dysgu
    - Sicrhau bod lleoliadau yn agos at ffrindiau a theulu
    - Sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael cymorth gan staff sydd wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso i weithio gyda phobl ag anableddau dysgu.
2. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd yn atebol am gadw Pobl ag anableddau dysgu mewn ysbytai, os gellir diwallu eu hanghenion yn ddigonol y tu allan i unedau asesu a thrin
3. We call on Welsh Government to ensure that people with learning disabilities are afforded their human rights in Accordance with the Human Rights Act 1998.
4. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael eu hawliau dynol yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998

‘Dim byd amdanom ni hebddon ni!’

Tracy Austin, Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol
Mewn ymgynghoriad â Chyngor Cenedlaethol Pobl Cymru Gyfan ac aelodau.

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan